Saesneg isod/ English below

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth yr 11eg o Dachwedd 2025 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Eleri Puw, Dylan Jarman, Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc).

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Nodwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Dylan Jarman yn eitem 3d.
2. Nodwyd nad oedd cais am gyflwyniadau gan aelod o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Hydref 2025 a**r gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Steve Lewis.
4. Cyhoeddwyd nad oedd cynrychiolydd o BCUHB yn medru dod i son am ysbyty Tywyn. Nodwyd bosibiliadau o fynychu cyfarfod gan Gyngor Cymuned Llanegryn ar y 18fed o Dachwedd, neu gael cynrychiolydd yno ar gyfer y 13eg o Ionawr. Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda phawb i gadarnhau.
5. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

- Nodwyd ymateb i faterion ers y cyfarfod diwethaf.
- Nodwyd fod angen sylw i gamfa ar lwybr 16, sef i fynny am Llechwedd – gyferbyn a'r Eglwys.

**b) Safle treftadaeth** / **Celf Cyhoeddus** – ystyriwyd y diweddaraf ynglyn a safle wagen lechi. Roedd Bet Huws wedi caniatau drilio tyllau i sicrhau nad oedd y sylfeini yn ymestyn tu hwnt i'r waliau ar gost o £500. Roedd Steve wedi sicrhau nad oedd gwrthwynebiad gan y Ganolfan a diolchwyd iddo.

**c) Arwyddion y cae chwarae –** byddai rhaid trafod y tro nesaf.

**d) Cronfa 'Gwynedd Ni' a'r cyfle am grant o fewn ffiniau y Cyngor Cymuned.** –

Ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Robert D Jones, cytunwyd i dalu anfoneb Dylan Jarman a'i Feibion am £5550 ynghyd a chostau o'i gosod o £1050. Hefyd talu cost blodau i'r Cyng Beth Lawton am £149.89.

(cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Dylan Jarman pan drafodwyd hyn, a gadawodd yr ystafell)

**e) Sleid y Cae chwarae** – roedd y gwaith wedi ei gwbwlhau ar gost o £200, a diolchwyd yn fawr i Cyng Steve Lewis am fod yng ngofal hyn.

**f) Cyngor Cymuned Aberdyfi** – cynllun trafnidiaeth cymunedol – nodwyd gyfarfod cyhoeddus ar y 13eg o Dachwedd yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi rhwng 2-4 yp.

**g) Coeden yn Heol y Dwr –** roedd Owain Willimas wedi ymweld a'r safle gyda'r Cyng Emrys Thompson. Cytunwyd i fynd ymlaen efo'r pris o glirio y goeden , sef £425.

h) **Arwyddion ar lwybr Mari Jones** – byddai'r Clerc yn gofyn am y diweddaraf.

**6. Materion Cynllunio**

Nid oedd yna unrhyw faterion cynllunio gerbron.

7. **Materion Cyllid.**

a) Dosbarthwyd y gyllideb mewn drafft, ac aethpwyd drwy pob penawd yn fanwl. Byddai'r Clerc yn cwbwlhau ac yn cyflwyno eto yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r Clerc baratoi llythyr i'r cyfarfod nesaf yn amlinellu ei amser a'i gostau gyda'r gwaith fel Clerc, fel bod y gydnabyddiaeth yn cael ei adolygu.

b) **Anfonebau i'w talu**

Ar gynnig Cyng Eleri Puw a'i eilio gan Cyng Miriam Webb, cytunwyd i dalu y canlynol;

- Cyfraniad toiledau i Gyngor Gwynedd - £2000
- Anfoneb Tim Parsons am ail-wneud y stepiau yn y Cae chwarae - £200
- ( nodwyd hefyd fod Rospa bellach wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn taliad, ac yn ymddiheuro am y dryswch)

c) **Ceisiadau am arian**

  - Roedd cais gan **Eisteddfod Flynyddol Abergynolwyn**, ac ar gynnig Cyng Dylan Jarman a'i eilio gan Cyng Miriam Webb, cytunwyd ar gyfraniad o £150. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Robert D Jones a Cyng Beth Lawton pan drafodwyd hyn, a gadawsant yr ystafell)
  - Nodwyd gais gan Ambiwlans Awyr Cymru, a phenderfynwyd peidio cyfrannu

**8.Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Adroddodd Cyng Beth Lawton am ei gwaith o fewn y ward, a'r cyfarfodydd yr oedd yn mynychu. Nododd yn arbennig gyfarodydd 'Ardal Ni 2035'

**9..Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Nodwyd gyfarfod Blynyddol a chwarterol Un Llais Meirionnydd ar yr 21ain o Hydref, a llongyfarchyd Cyng Elwyn Evans am ddod yn Gadeirydd Un Llais Meirionnydd unwaith eto. Adroddwyd am y cyfarfod yma gan y Clerc, a chyflwyniad Jonathan Cawley o'r Parc Cenedlaethol.

10..**Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - yng nghyswllt y pryder fod y beddi yn cael eu gosod yn gam, roedd y Cyng Robert Jones wedi trefnu i gyfarfod Rhys Bleddyn.

Darllenwyd e-bost pellach gan Paul Inman o'r Eglwys , (Cylch Bro Ystumanner) yn amlinellu yn fanwl y gost i do'r lychgate yn yr Eglwys, a oedd yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Miriam Webb i gytuno ar y gost o £320 a TAW ar gyfer hyn, a phasiwyd hyn gyda pleidlais y mwyafrif o'r Cynghorwyr.

b) **Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru,** a'r cyrsiau oedd ar y gweill, ac hefyd y cyfle i wneud rhai cyrsiau yn rhad ac am ddim. Byddai'r Clerc yn dosbarthu.

c) Nodwyd fanylion Cyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd ar 12.11.25.

d) Nodwyd Stratgaeth Gwastraff Cyngor Gwynedd,a bod angen ymateb. Byddai'r Clerc yn dosbarthu i'r Cynghorwyr.

e) Nodwyd e-bost gan Jane Morgan o Gyfoeth Naturiol Cymru yn rhybuddio am waith coedwigaeth yn Abergynolwyn o fewn y pythefnos nesaf, ac y byddai rhai llwybrau yn cau, gyda arwyddion i'w gosod.

**11. Nid oedd unrhyw fater arall**

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS FAWRTH 13eg Ionawr 2026, 7.00y.h.**

..............................................................................................................................

Minutes of a Council Meeting held on Tuesday 11th November 2025 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Miriam Webb, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Robert D Jones, Eleri Puw, Dylan Jarman, Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk).

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. A statement of interest from Cllr Dylan Jarman was noted in item 3d.

2. It was noted that there was no request for presentations from a member of the public on an issue on the agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 14th of October 2025 were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Steve Lewis.

4. It was announced that a representative from BCUHB was unable to speak about Tywyn hospital. Possibilities of attending a meeting by Llanegryn Community Council on the 18th

of November, or having a representative there for the 13th of January, were noted. The Clerk would contact everyone to confirm.

5. Matters arise

a) Highways/pathways issues.

• Responses to issues since the last meeting were noted.

• It was noted that attention is needed to a style on route 16, which is up towards Llechwedd - opposite the Church.

b) Heritage site / Public Art - the latest regarding the slate wagon site was considered. Bet Huws had allowed holes to be drilled to ensure that the foundations did not extend beyond the walls at a cost of £500. Steve had ensured that there was no objection from the Ganolfan and he was thanked.

c) The playing field signs - it would have to be discussed next time.

d) The 'Gwynedd Ni' Fund and the opportunity for a grant within the boundaries of the Community Council. –

On the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Robert D Jones, it was agreed to pay the invoice of Dylan Jarman and his Sons for £5550 plus costs of installation of £1050. Also pay the cost of flowers to Cllr Beth Lawton for £149.89.

(there was a declaration of interest from Cllr Dylan Jarman when this was discussed, and he left the room)

e) The Playground Slide - the work had been completed at a cost of £200, and a big thank you to Cllr Steve Lewis for being in charge of this.

f) Aberdyfi Community Council - community transport plan - a public meeting was noted on the 13th of November in Dyfi Hall, Aberdyfi between 2-4pm.

g) A tree in Heol y Dwr - Owain Williams had visited the site with Cllr Emrys Thompson. It was agreed to proceed with the price of clearing the tree, which is £425.

h) Signs on the Mari Jones route - the Clerk would ask for the latest.

6. Planning Matters

There were no planning issues ahead.

7. Finance Matters.

a) The budget was distributed in draft, and each heading was gone through in detail. The Clerk would complete and present again at the next meeting. The Clerk was asked to prepare a letter for the next meeting outlining his time and costs with the work as Clerk, so that the remuneration is reviewed.

b) Invoices to be paid

On the proposal of Cllr Eleri Puw and seconded by Cllr Miriam Webb, it was agreed to pay the following;

- Contribution of toilets to Gwynedd Council - £2000
- Tim Parsons' invoice for redoing the steps in the Playground - £200

(it was also noted that Rospa had now confirmed that they had received payment, and apologized for the confusion)

c) Requests for money

- There was a request from the Abergynolwyn Annual Eisteddfod, and on the proposal of Cllr Dylan Jarman and seconded by Cllr Miriam Webb, a contribution of £150 was agreed. (there was a declaration of interest from Cllr Robert D Jones and Cllr Beth Lawton when this was discussed, and they left the room)
- A request from the Welsh Air Ambulance was noted, and it was decided not to contribute

8. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

Cllr Beth Lawton reported on her work within the ward, and the meetings she attended. He particularly noted the presentation of 'Ardal Ni 2035'

9..Cllr.'s Report. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

The Annual and quarterly meeting of Un Llais Meirionnydd was noted on the 21st of October, and Cllr Elwyn Evans was congratulated for becoming Chairman of Un Llais

Meirionnydd once again. The Clerk reported on this meeting, and Jonathan Cawley's presentation from the National Park.

10.. Correspondence.

a) Llanfihangel y Pennant cemetery matters - in relation to the concern that the graves are being placed incorrectly, Cllr Robert Jones had arranged a meeting with Rhys Bleddyn.

A further email was read from Paul Inman from the Church, (Cylch Bro Ystumanner) outlining in detail the cost to roof the lychgate in the Church, which was the responsibility of the Community Council. Following discussion, it was decided on Cllr Emrys Thompson's proposal and seconded by Cllr Miriam Webb to agree on the cost of £320 and VAT for this, and this was passed with the majority of the Councillors' vote.

b) Un Llais Cymru training sessions were noted, and the courses that were in progress, and also the opportunity to make some courses free of charge. The Clerk would distribute.

c) The details of Mantell Gwynedd's Annual Meeting on 12.11.25 were noted.

d) Gwynedd Council's Waste Strategy was noted, and that a response was required. The Clerk would distribute to the Councillors.

e) An email from Jane Morgan from Natural Resources Wales was noted warning of forestry work in Abergynolwyn within the next two weeks, and that some paths would be closed, with signs to be installed.

11. There was no other matter

DATE OF NEXT MEETING;   THE GANOLFAN, ABERGYNOLWYN TUESDAY 13th January 2026, 7.00 p.m.